# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*


Mewn undod mae nerth /Stronger together

21/01/2022

Annwyl Rieni/Gofalwyr

Fel ysgol, rydym yn llwyr cydnabod bod cefnogi rhieni yn un o'n rolau sylfaenol, allweddol wrth gydweithio i gefnogi disgyblion a sicrhau eu llwyddiant a'u hapusrwydd yn yr ysgol.

Fel rhan o fy rôl fel Swyddog Amddiffyn Plant mae'n bwysig i mi godi ymwybyddiaeth pob rhiant bod newidiadau mawr yn y gyfraith eleni ynghylch cosb gorfforol. O 21 Mawrth 2022 ymlaen, bydd unrhyw fath o gosb gorfforol yn erbyn plant yn dod yn anghyfreithlon. Gall unrhyw un sy'n defnyddio cosb gorfforol fel ffordd o ddisgyblu eu plant fod yn agored i gael eu harestio a'u cyhuddo o ymosod. Darllenwch y wybodaeth isod yn ofalus iawn. Mae'r daflen lawn wedi'i hatodi i'r e-bost hwn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Stopio cosbi corfforol yng Nghymru

## Gwybodaeth i rieni

Mae 21 Mawrth 2022 yn foment hanesyddol i blant a'u hawliau yng Nghymru. O'r diwrnod hwn ymlaen, bydd cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru. Rydyn ni eisiau amddiffyn plant a'u hawliau, er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddyn nhw. Fel rhiant, dyma beth sydd angen i chi ei wybod am y newid yn y gyfraith.

### Beth yw cosb gorfforol?

Mae sawl math o gosb gorfforol. Fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd. Ond mae mathau eraill hefyd. Mae'n amhosibl rhestru pob math o gosb gorfforol. Gall fod yn unrhyw ddull o gosbi plentyn gan ddefnyddio grym corfforol. Mae ymchwil yn awgrymu y gallai unrhyw fath o gosb gorfforol fod yn niweidiol i blant.

### Beth mae'r newid yn y gyfraith yn ei olygu?

- Bydd cosbi corfforol o unrhyw fath yn anghyfreithlon yng Nghymru.
- Bydd gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion.
- Bydd yn gwneud y gyfraith yn gliriach - haws i blant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ei deall.

### Beth sy'n digwydd os byddaf yn cosbi fy mhlentyn yn gorfforol o 21 Mawrth 2022?

Os byddwch yn cosbi eich plentyn yn gorfforol:

- byddwch yn torri'r gyfraith
- mae perygl y cewch eich arestio neu eich cyhuddo o ymosod
- efallai y cewch gofnod troseddol, sydd yr un fath ar gyfer unrhyw drosedd.

Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i unrhyw un sydd ei angen, i'w helpu i ddod o hyd i ffyrdd cadarnhaol o reoli ymddygiad plant, i helpu i osgoi sefyllfa o'r fath.

### A yw'n golygu na allaf ddisgyblu fy mhlentyn mwyach?

Nac ydy. Mae angen disgyblaeth ar bob plentyn; mae'n rhan hanfodol o fagu plant yn dda. Ond, mae gwahaniaeth mawr rhwng disgyblu a chosbi.

Mae disgyblu plentyn yn ymwneud â rhoi ffiniau, arweiniad a chymorth i blentyn fel y gall ddysgu ymddygiad priodol. Ni fyddai'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar allu rhiant i wneud hynny.

Nid yw cosb gorfforol yn rhan anochel o ddisgyblu plant.

Efallai ei fod yn edrych fel ei fod yn gweithio oherwydd bod plant yn aml yn rhoi'r gorau i'r hyn maen nhw'n ei wneud pan fyddan nhw'n cael smac er enghraifft.

Ond nid yw cosbi plant yn gorfforol yn effeithiol o ran gwella ymddygiad plant ac nid yw'n helpu plant i ddysgu am hunanreolaeth nac ymddygiad priodol.

Gall cosb gorfforol:

- frifo plentyn
- gwneud i blentyn deimlo ofn, dicter, tristwch a dryswch
- rhoi'r neges i blant bod trais yn iawn a'i fod yn ymateb priodol i deimladau cryf
- bod yn gysylltiedig â chanlyniadau negyddol i blant.

I gael rhagor o wybodaeth am stopio cosbi corfforol yng Nghymru, ewch i: llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol

I gael gwybodaeth ac awgrymiadau am rianta cadarnhaol, ewch i *Magu Plant. Rhowch amser iddo*: llyw.cymru/rhowchamseriddo

Stopio Cosbi Corfforol
Ending Physical Punishment

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

Mae yna lawer o grwpiau cymorth rhianta a chyrsiau ar-lein ar gael. Gallwch gofrestru ar y wefan rhianta cadarnhaol https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo

Cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau covid yn caniatáu, hoffem wahodd rhieni sydd â diddordeb mewn datblygu eu dealltwriaeth o rianta cadarnhaol i'r ysgol i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag y bo modd.

Mae cyfle hefyd i gymryd rhan mewn dosbarthiadau magu plant ar-lein gyda https://inourplace.co.uk/




**Rhiant Lywodraethwr**
Ar hyn o bryd mae 1 lle gwag ar gyfer lle rhiant lywodraethwr. Rhaid i bob enwebiad ein cyrraedd erbyn 4/2/2022.
Bydd blwch post tu allan i brif ddrws ffrynt yr ysgol.

**Dydd Santes Dwynwen**
Ar **Ddydd Mawrth, Ionawr y 25ain** byddwn yn dathlu nawddsant cariad yng Nghymru, Santes Dwynwen. Peidiwch ag anghofio anfon cyfarchion cariad at eich anwyliaid ar y diwrnod hwn i godi ymwybyddiaeth o ran bwysig o hanes a thraddodiadau Cymru. ❤

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

Ar y diwrnod hwn, byddwn hefyd yn cymryd rhan yn ymgais yr Urdd i dorri record byd am y nifer fwyaf o uwchlwythiadau o fideo o ddisgyblion yn canu'r gân 'Hei Mr Urdd' i'w gwefan. Cewch ddarganfod mwy yma - https://www.urdd.cymru/cy/

**Gofynnwn i ddisgyblion ddod i'r ysgol yn gwisgo coch, gwyrdd neu wyn – neu gyfuniad o'r lliwiau hyn ar y diwrnod.**

**Clybiau chwaraeon ar ôl ysgol**
Rydym yn araf ailgychwyn clybiau ar ôl ysgol ar gyfer chwaraeon awyr agored, ar gyfer **blynyddoedd 5 a 6** yn unig. Byddwn yn dechrau 31/1/2022. Bydd y clybiau hyn yn dibynnol ar y tywydd. Bydd gwybodaeth yn cael ei hanfon yn fuan.
Bob dydd Mercher – Pêl-droed 3.20pm – 4.20pm
Bob dydd Iau – Pêl-rwyd 3.20pm - 4.20pm

**Dydd Gwyl Dewi** Ar Fawrth y 1af (dydd Mawrth) rydym yn annog disgyblion i ddod i'r ysgol wedi gwisgo mewn gwisg draddodiadol Gymreig. Bydd ffotograffiaeth Finesse hefyd yma i dynnu lluniau unigolion. Yn anffodus, nid yw asesiad risg covid cyfredol y cwmni yn caniatáu iddynt dynnu llun sy'n cynnwys brodyr a chwiorydd.

**HMS**
Dydd Gwener 18/2/2022
Dydd Llun 21/3/2022

**Gwyl y Banc Ychwanegol**
Fel rhan o ddathliadau jiwbilî platinwm y Frenhines, mae'r rhan fwyaf o ysgolion Abertawe gan gynnwys ysgolion Clwstwr Gŵyr wedi dewis y **dyddiad Dydd Gwener Ebrill 2022 29ain** fel eu dyddiad gŵyl banc. Nodwch yn eich calendrau. Mae Mai yr 2il hefyd yn ddydd Gwyl y Banc.

**Covid**
Er yr hoffwn ysgrifennu o leiaf un llythyr sydd ddim yn sôn am covid – yn anffodus, nid ydym yno eto. Mewn rhai dosbarthiadau yn yr ysgol mae cyfraddau heintiau uchel iawn, er bod yr holl ofynion diogelwch a ddisgwylir gennym ni fel ysgol yn dal yn gadarn yn eu lle. Ni allaf ond annog pawb i fod mor wyliadwrus i symptomau covid i bawb yn eich cartref ac os ydych chi neu'ch plentyn yn cael eich cydnabod fel cyswllt agos - cofiwch roi prawf dyddiol gan ddefnyddio LFT. Mae niferoedd staffio yn ansicr hefyd ac efallai y gwelwch y bydd gan eich plentyn athro gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol. Ymddiheuraf am hyn, fodd bynnag, mae ceisio dod o hyd i athrawon o asiantaethau allanol yn anodd ac ar hyn o bryd rydym yn gorfod staffio dosbarthiadau gyda staff mewnol.

Yn Gywir

E. Wakeham

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

Elin Wakeham


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**

**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**

**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**

**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**

**Ffôn/ Tel: 01792 466354**